Rheoli diogelwch mewn addysg gorfforol a gweithgareddau awyr agored

Ebrill 2005

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

...Rhagoriaeth i bawb... …Excellence for all…

© Hawlfraint y Goron 2005

Cyhoeddwyd gan:

Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

Gellir ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos adrannol) yn rhad ac am ddim ar unrhyw ffurf neu gyfrwng cyhyd ag y bod yn cael ei ddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn www.estyn.gov.uk

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r cyhoeddiad hwn at y rheolwr Cyhoeddiadau yn y cyfeiriad uchod, neu drwy neges e-bost at

publications@estyn.gsi.gov.uk

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad 4

Prif ganfyddiadau 4

Argymhellion 5

Cefndir 6

Y Fframwaith Cyfreithiol 7

Cyhoeddiadau 7

Methu ag arfer gofal rhesymol 8

Ofn cyfreitha 8

Diogelwch mewn addysg gorfforol 9

Darpariaeth ar y safle 9

Darpariaeth oddi ar y safle 10

Cyfeiriadau defnyddiol 11

Cyflwyniad

1. Diben yr adroddiad hwn yw ymateb i gais gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am wybodaeth am reoli diogelwch mewn addysg gorfforol a gweithgareddau awyr agored mewn ysgolion. Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau o:

- ymatebion holiadur gan 15 o'r 22 AALlau; a thrafodaethau gyda:
- 3 ymgynghorydd AG;
- rheolwyr 5 canolfan gweithgareddau awyr agored;
- Pennaeth Gwasanaethau Arolygu'r Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur; ac
- athrawon o 3 ysgol uwchradd a 12 ysgol gynradd.

Mae hefyd yn gwneud nifer o argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol

Prif ganfyddiadau

2. Mae ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru yn rheoli diogelwch mewn addysg gorfforol y Cwricwlwm Cenedlaethol yn dda iawn. Fodd bynnag, yn y 9 AALl yng Nghymru lle nad oes ymgynghorydd AG arbenigol, nid yw ysgolion ac athrawon yn sicr sut y mae'r AALl yn cynnig cyngor diogelwch arbenigol ar AG, os oes ei angen ar frys. Yn aml, nid ydynt ychwaith yn ymwybodol o linell gymorth diogelwch y British Association of Advisers and Lecturers in PE (Baalpe), sydd ar gael yn rhad ac am ddim i bob ysgol yn y DU.

3. Mae pob AALl yng Nghymru yn cynghori ysgolion i brynu arweiniad 'Safe Practice in Physical Education' Baalpe i lywio'u polisïau a'u harferion. Prin yw'r AALlau sy'n rhoi'r arweiniad hwn i'w hysgolion am ddim. Mae'r arweiniad yn cael ei ddiweddaru bob pedair blynedd. Fodd bynnag, nid oes gan nifer sylweddol o ysgolion fersiwn diweddaraf yr arweiniad gan ei fod yn ddrud.

4. Mae ymwneud myfyrwyr â rheoli risg yn eu gwneud yn ymwybodol o beryglon posibl ac yn cyfrannu at eu gallu i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu diogelwch eu hunain a diogelwch eraill.

5. Parhau'n weithgaredd i'n lleiafrif y mae addysg awyr agored yng nghwricwlwm addysg gorfforol y mwyafrif o ysgolion. Mae llai o ysgolion uwchradd bellach yn arwain profiadau preswyl oddi ar y safle oherwydd yr ofnau cynyddol o gyfreitha. Yn ddieithriad, mae ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n parhau i gynnwys gweithgareddau awyr agored yn eu rhaglenni, yn mynd â disgyblion i Ganolfannau Addysg Awyr Agored lle mae hyfforddwyr arbenigol â chymwysterau da yn gyfrifol am yr addysgu.

6. Mae pob AALl yn cynnwys cyrsiau asesu risg a diogelwch yn eu rhaglenni Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), ond mae'r mathau o gyrsiau yn amrywio'n helaeth ledled Cymru. Mae'r cyrsiau'n cynnwys:

- cyrsiau generig a ddarperir gan swyddogion Iechyd a Diogelwch (IaD) yr awdurdod lleol;
- cyrsiau generig a ddarperir gan arbenigwyr IaD cenedlaethol;
- cyrsiau AG penodol a darperir gan ymgynghorwyr AG; a
- chyrsiau AG penodol a ddarperir gan arbenigwyr IaD AG, fel Baalpe.

7. Mae gan gyrff llywodraethol cenedlaethol ar gyfer gweithgareddau penodol gofnodion o bob hyfforddwr ac arweinydd cymwys yn eu gweithgareddau penodol. Fodd bynnag, nid oes cofnod canolog o bob arbenigwr yng Nghymru y gall AALlau neu ysgolion unigol droi ato i gael cyngor a chefnogaeth.

Argymhellion

8. I sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cymryd rhan yn ddiogel mewn gweithgareddau sy'n debygol o ymestyn a gwella ansawdd eu bywydau:

A1 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- ddiweddaru a dosbarthu i ysgolion yng Nghymru, tair dogfen arweiniad atodol Iechyd a Diogelwch Disgyblion ar Ymweliadau Addysgiadol (HASPEV) a ddosbarthwyd gan y DfES i ysgolion yn Lloegr;
- gofyn i'r Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur gynnal cofrestr ganolog o hyfforddwyr/arweinwyr arbenigol gweithgareddau antur yng Nghymru;
- mynnu bod gan bob ysgol Gydlynydd Ymweliadau Addysgiadol hyfforddedig; a
- gofyn i sefydliad priodol roi cyngor arfer orau ychwanegol ar reoli diogelwch gweithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau tramor gan ysgolion a allai fod yn beryglus.

A2 Dylai AALlau:

- sicrhau y gallant gyrraedd cyngor a chymorth arbenigol ynghylch addysg gorfforol;
- cyhoeddi arweiniad iechyd a diogelwch penodol ar gyfer:
  - holl weithgareddau addysg gorfforol y cwricwlwm;
  - gweithgareddau dŵr, gan gynnwys y gweithgareddau hynny sy'n digwydd yn agos at ddŵr;
  - gweithgareddau ar dir agored neu beryglus; ac
  - ymweliadau tramor.
- cael pwynt cyswllt addysg gorfforol a gweithgareddau awyr agored (GAA) i ysgolion;
- rhoi hyfforddiant ar asesu risg mewn addysg gorfforol ac ar ddefnyddio'r arweiniad diogelwch sydd ar gael;
- sicrhau bod darparwyr gweithgareddau antur yn dilyn arfer orau; a
- monitro canolfannau GAA.

A3 Dylai ysgolion:

- gynnal asesiad risg o holl weithgareddau addysg gorfforol cwricwlaidd ac allgyrsiol ac ymweliadau oddi ar y safle cyn ac yn ystod y gweithgaredd;
- sicrhau bod polisïau diogelwch addysg gorfforol yn cydymffurfio â rheoliadau IaD; a
- sicrhau bod yr holl staff yn gymwys ac yn gallu derbyn DPP yn rheolaidd.

Cefndir

9. 'Mae i addysg gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol botensial o ran mynd i'r afael ag ystod eang o faterion sy'n codi mewn ysgolion. Er enghraifft, maent yn aml yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion sydd wedi'u dadrithio; gallant fod o gymorth i wella ysgolion, codi lefel ffitrwydd disgyblion a'u hannog i ddilyn ffordd iach o fyw.'[1]

10. Mae gorchmynion y cwricwlwm cenedlaethol ar gyfer addysg gorfforol yn cynnwys chwe maes gweithgaredd. Mae un o'r gweithgareddau hyn, sef gweithgareddau awyr agored ac antur, yn ddewisol i ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae addysg gorfforol o safon yn cyfrannu nid yn unig at ddatblygiad corfforol, ond at ddatblygiad personol a chymdeithasol hefyd. Drwy addysg gorfforol, gall disgyblion gynyddu eu hyder a'u hunan-barch. Maent hefyd yn dysgu sut mae:

- cydweithio'n sensitif;
- deall eu cryfderau a'u cyfyngiadau, a gwerthfawrogi'r rheiny mewn eraill;
- cymryd cyfrifoldeb a'i rannu;
- bod yn arweinwyr, yn strategwyr ac yn weithwyr mewn tîm;
- gwneud penderfyniadau gwybodus;
- datblygu ymrwymiad i ffordd o fyw iach;
- parchu'r amgylchedd;
- talu sylw priodol i ddiogelwch; a
- gwella eu medrau allweddol, yn enwedig:
    - cyfathrebu;
    - datrys problemau; a
    - chymryd cyfrifoldeb am a gwella eu dysgu eu hunain.

11. Mae mwyafrif y damweiniau i blant yn digwydd oherwydd nad ydynt wedi dysgu, neu wedi cael cyfle i ddysgu sut i edrych ar eu hôl eu hunain. Mae addysgwyr corfforol yn adrodd bod pobl ifanc yn fwy afrosgo ac yn llai ymwybodol o berygl nag oedd pobl ifanc hyd yn oed 15 mlynedd yn ôl. Byddai cymryd rhan mewn gweithgareddau addysg gorfforol, chwaraeon ac antur yn cynyddu eu gallu i edrych ar ôl eu hunain yn sylweddol, yn enwedig o dan amgylchiadau anghyfarwydd, a gostwng nifer y damweiniau ymysg plant. Mae gweithgareddau antur, sy'n cael eu cydnabod fel y gweithgareddau â'r potensial i fod yn fwyaf peryglus, ond yn cyfrif am tua 150 o farwolaethau y flwyddyn dros y DU gyfan.

[1] Cynllun Gweithredu Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol dros Gymru

12. Mae addysgwyr corfforol, arbenigwyr gweithgareddau awyr agored a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd yn dadlau y byddai cael pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol heriol hefyd yn gostwng y marwolaethau a achosir gan ganser, trawiadau ar y galon, alcohol, marwolaethau sy'n gysylltiedig ag ysmygu a gordewdra. O'r 1,000 o hunanladdiadau gan bobl rhwng 15 a 25 mlwydd oed, mae'r Samariaid yn adrodd mai'r prif ffactor cyfrannol oedd gadael ysgol ag ymdeimlad isel o hunan-barch.

13. Yn 2002-2003, cafodd 439 o bobl ifanc eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol, tra bod 14,600 wedi'u gwahardd am gyfnodau penodol[2]. Mae tystiolaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys Ofsted yn Lloegr, yn nodi bod ymwneud â gweithgareddau antur hyd yn oed yn achlysurol yn gwella cyfranogiad disgyblion, yn enwedig pan fyddant yn weithgareddau preswyl.

Y Fframwaith Cyfreithiol

14. Mae'r sail gyfreithiol ar gyfer addysg gorfforol a gweithgareddau awyr agored ac antur mewn ysgolion yn ymdrin â dau brif faes gweithgaredd. Mae'r maes cyntaf yn ymwneud â gwaith addysg gorfforol y Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) ar y safle. Mae'r ail yn ymwneud â phrofiadau oddi ar y safle, sydd ambell waith yn cyflawni Gorchmynion y CC ar gyfer Gweithgareddau Awyr Agored ac Antur (CA2 a CA3) a Gweithgareddau Antur (CA4), ond gallant hefyd fod yn weithgareddau cyfoethogi allgyrsiol. Mae gweithgareddau oddi ar y safle yn cynnwys gweithgareddau antur sy'n defnyddio darparwyr trwyddedig neu heb drwydded, gweithgareddau preswyl neu weithgareddau nad ydynt yn rhai preswyl yn ystod amser ysgol ac y tu allan i amser ysgol yn y DU a thramor.

Cyhoeddiadau

15. Ym 1998, cyhoeddodd yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES) Gylchlythyr 0803/2001 "Iechyd a Diogelwch ar Ymweliadau Addysgol: Cyfrifoldebau a Phwerau." Er 2002, mae'r DfES yn Lloegr wedi cyhoeddi arweiniad atodol i ysgolion, awdurdodau addysg lleol ac athrawon sy'n dwyn y teitlau:

- Standards for LEAs in Overseeing Educational Visits;
- Standards for Adventure;
- A Handbook for Group Leaders; a
- Group Safety at Water Margins.

16. Mae'r canllawiau arfer dda yn nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch (o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 a'r rheoliadau cysylltiedig). Mae cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch yn aros gyda:

- yr AALl fel cyflogwr ar gyfer ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin ac ar gyfer unedau cyfeirio disgyblion;
- y corff llywodraethol fel cyflogwr ar gyfer ysgolion sylfaen, ysgolion arbennig sylfaen ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir; a'r

[2] Ystadegau CCC

- corff llywodraethol neu'r perchennog, fel rheol, mewn ysgolion annibynnol.

Methu ag arfer gofal rhesymol

17. Byddai llys o'r farn bod torri dyletswydd gan AALl, ysgol neu athro yn fethiant i gwrdd â safon gweithiwr proffesiynol rhesymol. Fodd bynnag, nid yw'r hyn sy'n cael ei ystyried yn rhesymol yr un peth i bob athro a phennaeth. Er enghraifft, petai athro â lefel uwch benodol o arbenigedd ym maes rheoli neu weithgareddau awyr agored o ganlyniad i hyfforddiant neu brofiad, byddai safon uwch yn berthnasol i'r person hwnnw.

18. Wrth ddangos gofal rhesymol, rhaid i ysgolion sicrhau bod ganddynt bolisi ar gyfer ymweliadau oddi ar y safle. Dylai hwn ddangos sut y mae ysgol:

- yn ystyried unrhyw arweiniad gan yr AALl ynghylch ymweliadau oddi ar y safle;
- yn rhoi gwybod i'r corff llywodraethol am yr holl weithgareddau sy'n digwydd oddi ar safle'r ysgol. (Gall fod angen cymeradwyaeth y corff llywodraethol ar rai ymweliadau, fel ymweliadau tramor, cyn y'i cynigir i ddisgyblion a rhieni); ac
- yn gosod allan y gweithdrefnau y bydd yn eu dilyn wrth gynllunio a chyflwyno gweithgaredd.

19. Dylai'r AALl neu'r cyflogwr archwilio'r polisi i sicrhau bod y cyflogwr yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn llawn. Dylai'r ysgol adolygu'r polisi yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion yr ysgol a bod copïau ar gael i rieni pan fo'r angen. Yn olaf, dylid cynnwys crynodeb ym mhrosbectws yr ysgol.

Ofn cyfreitha

20. Mae adroddiadau am straeon 'diwylliant iawndal' yn y cyfryngau dros y blynyddoedd diwethaf wedi annog yr amgyffrediad cyhoeddus ffug ein bod yn dilyn America fel cymdeithas gyfreithgar. Mae hyn wedi cael effaith ddifrifol ar barodrwydd rhai athrawon/arweinwyr ieuenctid i gymryd risg o gynnal ymweliad addysgiadol.[3]

21. Er bod rhieni ac ysgolion yn gwneud mwy a mwy o ymholiadau i AALlau ynghylch digwyddiadau ar ymweliadau ysgol, mae nifer yr hawliadau damweiniau, gan gynnwys hawliadau niwed personol, yn gostwng. Mae hyn yn arbennig o wir am hawliadau annilys. O ganlyniad i ollwng hawliadau annilys, mae dau o'r cwmnïau rheoli hawliadau mwyaf wedi mynd i'r wal.

22. Mae'r DfES yn datgan y cafodd athrawon eu 'hatal gan amgyffrediad ffug bod gradd uchel o risg yn gysylltiedig ag addysg awyr agored …'. Yn wir, yn Lloegr yn 2003, cynhaliwyd rhwng 7 miliwn a 10 miliwn o ymweliadau disgyblion, ond dim ond un farwolaeth a fu. Meddai David Bell, y prif

[3] Detholiad o astudiaeth y Better Regulation Task Force – www.oeap.info

arolygydd yn Lloegr:

‘Mae manteision addysg awyr agored yn llawer rhy bwysig i’w fforffedu, ac maent yn gorbwyso’r risgiau o ddamwain yn digwydd o bell ffordd. Os yw athrawon yn dilyn gweithdrefnau ac arweiniad diogelwch cydnabyddedig, nid oes ganddynt unrhyw beth i’w ofni.’

Nid oes rheswm i awgrymu y dylai Cymru fod yn wahanol i Loegr yn hyn o beth.

23. Mae cymdeithasau athrawon wedi cyhoeddi arweiniad a chyngor i’w haelodau, yn ymwneud ag ystod o ymweliadau gweithgareddau ysgol gartref a thramor. Mae’r rhain yn cynnwys gweithgareddau antur dan arweiniad canolfannau, a’r rheiny dan arweiniad ysgolion, yn enwedig y rheiny sy’n cynnwys gweithgareddau a allai fod yn beryglus neu sy’n digwydd mewn sefyllfaoedd a allai fod yn beryglus. Mae’r cymdeithasau hefyd yn argymell bod gan bob ysgol ‘Gydlynydd Ymweliadau Addysgiadol’ dynodedig wedi’i hyfforddi. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y Cynulliad eto wedi cyhoeddi’r ystod lawn o arweiniad sy’n debyg i’r arweiniad sydd ar gael i ysgolion yn Lloegr, ac nid oes gennym ofyniad, na gweithdrefnau ar gyfer hyfforddi Cydlynwyr Ymweliadau Addysgiadol.

Diogelwch mewn addysg gorfforol

Darpariaeth ar y safle

24. O ganlyniad i arbenigedd a phrofiad athrawon AG arbenigol, ceir llawer o arfer dda o ran ymwybyddiaeth o ddiogelwch mewn gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol ar y safle ac oddi arno mewn ysgolion uwchradd. Mae hefyd enghreifftiau o arfer dda mewn ysgolion cynradd ac uwchradd o ran rheoli diogelwch mewn darpariaeth AG ar y safle, ac wrth addysgu disgyblion ynghylch ymwybyddiaeth o ystyriaethau diogelwch.

25. Yn y naw AALl yng Nghymru sydd heb ymgynghorydd AG arbenigol, nid yw’r athrawon na’r ysgolion yn glir yn aml am sut y mae’r AALl yn rhoi cyngor diogelwch arbenigol ar gyfer AG, os oes ei angen ar frys. Mewn ambell achos, gwneir y cyswllt cyntaf gyda swyddog iechyd a diogelwch yr awdurdod lleol, nad oes ganddo wybodaeth a dealltwriaeth benodol o weithgareddau addysg gorfforol. Mewn achosion eraill, y cyswllt yw’r cydlynwyr AG a Chwaraeon yn yr Ysgol, sy’n aml heb brofiad ac arbenigedd o gwricwlwm AG nac arbenigedd iechyd a diogelwch arbenigol.

26. Mae AALlau yn dilyn argymhelliad Baalpe, sef y dylai cwmnïau arbenigol arolygu ac atgyweirio cyfarpar gymnasteg ysgolion yn flynyddol. Rhaid i ysgolion dalu am yr atgyweiriadau hyn o’u cyllidebau dirprwyedig, ac mae nifer yn dewis symud yr eitem rhag cael ei defnyddio oherwydd bod yr atgyweiriadau mor ddrud. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd AG disgyblion, ac felly mae’n cael effaith negyddol ar safonau.

27. Mae Baalpe yn cynnig arweiniad gwerthfawr yn ei gyhoeddiad 'Safe Practice in Physical Education'. Mae mwyafrif yr ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru yn cyfeirio at yr arweiniad pan fyddant yn cynllunio ac yn cyflwyno eu gweithgareddau addysg gorfforol. Mae rhai o'r 13 AALl yng Nghymru sydd ag ymgynghorydd AG arbenigol yn darparu'r cyhoeddiad hwn i ysgolion heb godi ar gyllidebau ysgolion. Nid yw AALlau sydd heb ymgynghorydd AG arbenigol yn gwneud hyn.

28. Mae AALlau yn fwyfwy ymwybodol o'r angen i gynnig cyngor i ysgolion ar asesu risg. Mae'r arweiniad gorau yn cynnwys adrannau cyffredinol ar asesu risg, ynghyd ag adrannau ar weithgareddau AG cwricwlaidd ac allgyrsiol penodol. Mae'r AALlau hynny sydd ag ymgynghorwyr AG arbenigol yn cynnig cyngor a chefnogaeth benodol, gyda deunyddiau enghreifftiol y gall ysgolion eu haddasu at eu hamgylchiadau eu hunain.

29. Lleiafrif yr adrannau addysg gorfforol mewn ysgolion uwchradd, a nifer fach iawn o ysgolion cynradd, sydd wedi cynnal asesiadau risg cynhwysfawr ffurfiol o holl feysydd gweithgareddau AG. Lle gwnaed asesiadau risg, mae'r dogfennau sy'n deillio ohonynt yn aml yn fiwrocrataidd ac nid ydynt yn hawdd i'w defnyddio o ddydd i ddydd. O ganlyniad, anaml iawn y maent yn effeithiol.

Darpariaeth oddi ar y safle

30. Mae Rheolaeth Diogelwch mewn canolfannau gweithgareddau antur arbenigol yn dda iawn. Mae dogfennau asesu risg a'u hymarfer yn fanwl ac yn drylwyr. Mae'r aelodau staff yn gymwys iawn ac yn brofiadol, ac yn yr enghreifftiau gorau mae gan lawer, neu bob un ohonynt statws athro cymwys.

31. Mae mwy a mwy o ysgolion cynradd yn mynd â disgyblion i ganolfannau gweithgareddau awyr agored, yn aml i gael profiad preswyl. Mae'r ysgolion hyn yn cysylltu'r cyfleoedd gweithgareddau antur â'u rhaglenni datblygiad personol a chymdeithasol, a chyda'u polisïau o ran ffyrdd o fyw iach a gweithgar. Yn aml, mae'r ysgol yn nodi cysylltiadau â'r Cynllun Ysgolion Iach a'r fenter Eco-ysgolion.

32. Mae disgyblion yn ymwneud ag asesu a rheoli risg wrth ymgymryd â gweithgareddau addysg awyr agored. Gall addysg awyr agored wneud cyfraniad unigryw drwy gynnig cyfleoedd wedi'u strwythuro i ddisgyblion adnabod peryglon, cyfrifo'r risgiau perthynol a phenderfynu ar arwyddocâd y risg. Y ffordd hon, maent yn pennu ac yn gweithredu'r rhagofalon angenrheidiol ar gyfer dileu a lleihau'r risg hwnnw.

33. Mae cymryd rhan mewn rheoli risg yn gwneud disgyblion yn ymwybodol o'r peryglon posibl ac yn cyfrannu at eu gallu i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu diogelwch eu hunain a diogelwch eraill.

34. Mae cyrff llywodraethol ar gyfer gweithgareddau penodol, fel Bwrdd Hyfforddi Arweinwyr Mynydd Cymru a Chymdeithas Ganŵio Cymru, yn cadw cofnod o arweinwyr hyfforddedig. Fodd bynnag, nid oes cofrestr ganolog o

arbenigwyr technegol ym mhob gweithgaredd antur penodol ar draws Cymru.

35. Mae'r Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur yn trwyddedu mwyafrif y canolfannau gweithgareddau antur. Rhaid i ganolfannau sy'n cynnig y gweithgareddau canlynol fod yn drwyddedig:

DRINGO	CHWARAEON DŴR	HIRDEITHIO	OGOFA
Dringo creigiau Abseilio Dringo iâ Cerdded Ceunentydd Sgrialu ceunentydd Trawsteithio ar lefel y môr	Canŵio Caiacio Dragon boating Sgïo tonnau Rafftio dŵr gwyn Rafftio byrfyfyr Hwylio Hwylfyrddio Bordhwylio	Cerdded bryniau Mynydda Rhedeg gweunydd Cyfeiriannu Merlota Beicio oddi ar y ffordd Sgïo oddi ar y piste	Ogofa Mynd i geubyllau Archwilio mwyngloddiau

36. Nid oes angen trwydded ar rai canolfannau antur gan mai cyfyng yw'r gweithgareddau a gynigir ganddynt. Mae'r canolfannau hynny yr ymwelwyd â hwy ar gyfer yr arolwg hwn yn drylwyr o ran eu hasesiadau risg a chynllunio, ac wrth ganfod addasrwydd y staff y maent yn eu cyflogi.

37. Mae gan bob AALl yng Nghymru ganllawiau arfer ddiogel, yn seiliedig ar gyngor a gynigir gan y DfES, i ysgolion sy'n dymuno mynd â'u disgyblion ar ymweliadau gweithgareddau antur. Mae gan lawer o ysgolion eu gofynion arfer ddiogel a gweithdrefnau asesu risg eu hunain. Rhaid i ysgolion gydymffurfio â'r holl ofynion cyn gall yr ysgol a/neu yr AALl ganiatáu i'r ymweliad fynd yn ei flaen.

38. Nid oes gan AALl Caerdydd ymgynghorydd AG arbenigol. Ond oherwydd y diffyg arweiniad cenedlaethol yng Nghymru, mae'r AALl yn cynnig hyfforddiant bob tymor i'r Cydlynwyr Ymweliadau Addysgiadol. Arbenigwr diogelwch o Baalpe sy'n darparu'r cyrsiau hyn, yn seiliedig ar y rheoliadau sydd mewn grym yn Lloegr. Mae Ceredigion a Chonwy hefyd wedi penderfynu cyflwyno hyfforddiant i Gydlynwyr Ymweliadau Addysgiadol yn y flwyddyn ariannol nesaf. Nid yw AALlau eraill, fodd bynnag, yn cynnig hyfforddiant penodol i athrawon i'w galluogi hwy i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol.

Cyfeiriadau defnyddiol

'Five steps to Risk Assessment' HSE Books (www.hse.gov.uk) ISBN 0717615650 HSE Books PO Box 1999 Sudbury Suffolk CO10 2WA

Arweiniad y DfES "Circular 0278/2002 Child protection: Preventing unsuitable people from working with children and Young Persons in the Education Service".

DfES 'Health and Safety of Pupils on Educational Visits' - arweiniad

DfES 'Guidance on First Aid for Schools – A Good Practice Guide'.

Cyngor Iechyd a Diogelwch Baalpe (**www.baalpe.org**)

Baalpe 'Safe Practice in Physical Education' – dogfen arweiniad (**www.baalpe.org**)

Dogfen arweiniad 'The Outdoor Education Advisers' Panel – 'Overseas Expeditions'

Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur 'Risk Assessments, Safety Statements and all that Guff' – arweiniad a chyngor (**www.aala.org**)

Better Regulation Task Force 'Better Routes to Redress' – cyngor (**www.brtf.gov.uk**)